Cyfiawnder hinsawdd - taflen wybodaeth

Pethau allweddol i'w gwybod am gyfiawnder hinsawdd

1 Mae'r argyfwng hinsawdd yn anghyfiawn

Mae effeithiau gwresogi byd-eang yn parhau i effeithio ar y cymunedau tlotaf a mwyaf bregus ledled y byd. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld trychinebau hinsawdd yn cynyddu'n ddramatig. Yn 2023, roedd llifogydd wedi dinistrio cymunedau ym Mhacistan, tanau gwyllt wedi difa cartrefi yng Ngwlad Groeg a Seiclon Freddy wedi lladd dros 1,000 o bobl ym Malawi. Ym mhob trychineb, pobl sy'n byw mewn tlodi sy'n dioddef fwyaf.

2 Dylai'r Deyrnas Unedig gymryd cyfrifoldeb

- Y Deyrnas Unedig, ynghyd ag eraill, sy'n gyfrifol am achosi'r argyfwng hinsawdd. **Ac eto mae ein harweinwyr gwleidyddol yn gwrthod cymryd y camau angenrheidiol i fynd i'r afael â'i effeithiau niweidiol.**
- Mae gan y DU hanes o lygru'r amgylchedd ac o fod yn un o allyrwyr carbon deuocsid mwyaf y byd, felly mae'n ddyletswydd arnom i ostwng allyriadau nwyon tŷ gwydr i net sero yn gyflym. Ac eto er gwaethaf ei deddfwriaeth arloesol yn 2019 ar gyrraedd sero net, mae'r DU yn bell o gyflawni hynny.
- Mae Llywodraeth y DU wedi addo darparu cymorth ariannol, sef 'cyllid hinsawdd' i wledydd incwm is. Ond mae'r symiau'n druenus o annigonol a dim ond yn rhannol mae'r addewidion yn cael eu cadw.
- Mae'r arian sydd wedi ei ddarparu wedi ei gymryd o bwrs y gyllideb cymorth. Ar ben hynny, mae'n aml ar ffurf benthyciadau sy'n rhaid eu had-dalu gyda llog. **Mae disgwyl i wledydd fel Malawi ysgwyddo costau argyfwng nad oedden nhw wedi ei achosi.**
- Ar ben hynny, yn fyd-eang, mae ffydd pobl mewn trafodaethau hinsawdd yn gwegian. Rhaid i wledydd fel y DU ddangos ar frys sut y bydd cyllid hinsawdd yn cael ei ddarparu ar raddfa helaeth.

3 Y llygrwyr ddylai dalu

- Ac wrth i hyn ddigwydd, mae Shell a BP a chwmnïau tebyg yn elwa ar eu canfed ar danwydd ffosil - sef y rheswm mwyaf dros yr argyfwng hinsawdd. Mae'r cwmnïau hyn yn llythrennol yn gwneud eu helw ar draul trigolion sy'n byw mewn tlodi.
- Gallai llywodraeth y DU godi arian i gyllido camau gweithredu ar yr hinsawdd heb effeithio ar aelwydydd cyffredin y DU. Gallai'r DU ddewis trethu cwmnïau cyfoethocaf a mwyaf llygredig y DU - ond mae wedi dewis peidio!

#TacloTlodi

Talu am gyfiawnder hinsawdd

Beth i alw amdano

Mae Cymorth Cristnogol yn galw ar Lywodraeth y DU i roi blaenoriaeth i ddatrys yr argyfwng hinsawdd ar bob agenda llywodraeth yn y dyfodol. **Mae'n rhaid cefnogi cymunedau sy'n agored i niwed yn yr hinsawdd a meithrin ymddiriedaeth yn fyd-eang**, er enghraifft, drwy:

- Gynyddu'r cyllid yn sylweddol (ar ffurf grantiau, nid benthyciadau) i gefnogi gwledydd sy'n agored i niwed o safbwynt yr hinsawdd fel y gallant addasu, lliniaru ac ymateb pan fydd trychinebau hinsawdd yn taro – mae hyn yn ychwanegol at y cymorth presennol a ddarperir gan y DU.
- Trethu elw helaeth cwmnïau tanwydd ffosil i helpu i ddarparu'r cyllid hwn.
- Rhoi'r gorau i'r holl ddatblygiadau olew a nwy newydd yn y DU, a buddsoddi mewn swyddi gwyrdd diogel o ansawdd da.

Fel aelod o'r llywodraeth neu o'r wrthblaid, mae gan eich Aelod Seneddol ran i'w chwarae. Cysylltwch â'ch Aelod Seneddol heddiw.

Am ragor o wybodaeth:
Darllenwch faniffesto Cymorth Cristnogol yn llawn – caid.org.uk/manifesto

E-bost: campaigns@christian-aid.org

'Y cwmnïau tanwydd ffosil a'r gwledydd sy'n llygru fwyaf sydd â'r ddyletswydd fwyaf i dalu am golled a difrod.'

Vanessa Nakate, ymgyrchydd hinsawdd, Uganda

cymorth cristnogol

Mae Cymorth Cristnogol yn aelod allweddol o'r ACT Alliance. Rhif elusen Cymru a Lloegr 1105851 Rhif cwmni 5171525. Nodau masnach Cymorth Cristnogol yw enw a logo Cymorth Cristnogol. Argraffwyd ar ddeunyddiau o goedwigoedd a reolir yn gyfrifol yn unig. © Cymorth Cristnogol Mawrth 2024 Llun: Cymorth Cristnogol